# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 20FED MEHEFIN, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda,**
**Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 10 Mehefin 2016)

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

### AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Daniels | Annwen Hughes |
| Christopher Hughes | W. Tudor Owen |
| Ann Williams | John Wyn Williams |
| R. H. Wyn Williams | Sedd wag |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Louise Hughes |
| Angela Russell | Eryl Jones-Williams |
| Elfed Williams | |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| I. Dilwyn Lloyd | Peter Read |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2016/17

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is Gadeirydd ar gyfer 2016/17

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 07.03.2016 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS BWYLLGORAU 8 - 14

Cyflwyno, er gwybodaeth cofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:-

i. 09.02.2016
ii. 04.03.2016

## 8. POLISI DOSBARTHU FFILM 15 - 23

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio

## 9. POLISI HAPCHWARAE

Diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 07.03.16

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Tudor Owen, Ann Williams, Elfed W. Williams ac Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Annwen Daniels, Dilwyn Lloyd, Peter Read a John Wyn Williams a Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Nodwyd bod yr hyfforddiant diweddar ‘Licensing for Members’ gan Mr Jim Button wedi bod yn fuddiol iawn ac wedi amlygu i’r Aelodau bod y pedwar amcan trwyddedu yn ganolog i bob penderfyniad.

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o’r pwyllgor a gynhaliwyd ar 1af o Rhagfyr 2015 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o’r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar

09.10.15
24.11.15
21.12.15
12.01.16
29.01.16

**6. POLISI GAMBLO CYNGOR GWYNEDD**

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu yn amlygu dyletswydd y Cyngor i adolygu eu Datganiad o Bolisi Deddf Gamblo 2005 bob tair blynedd. Yn unol â’r trefniadau a weithredwyd i ddiweddaru Datganiad Polisïau Deddf Trwyddedu 2003, nodwyd bod Grŵp Gogledd Cymru wedi penderfynu

defnyddio'r un broses i fynd ati i adolygu a diweddaru Datganiad o Bolisïau Gamblo ar gyfer 2016 - 2019. Adroddwyd bod un cyfarfod ar y cyd eisoes wedi ei gynnal i gytuno ar y strwythur a'r cynnwys, gyda bwriad bellach i fwrw ymlaen i weithredu addasiadau i'r polisi. Nodwyd y byddai'r Polisi yn dilyn steil a fformat Polisïau Deddf Trwyddedu y Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb.

Ategwyd mai un newid ar gyfer y cyfnod yma o addasiadau yw i ymateb i'r gofyn i greu 'proffil ardal lleol'. O Ebrill 2016 ymlaen bydd angen i bob eiddo sydd â thrwydded Gamblo baratoi asesiad risg ar gyfer y busnes fydd yn ystyried y lleoliad a'r mathau o bobl sydd o'i amgylch, i sicrhau eu bod yn cadw at yr amcanion gamblo. Pwrpas y 'proffil ardal lleol' yw cynorthwyo'r busnesau hyn i lunio asesiad risg - drwy rannu gwybodaeth am natur Gwynedd (toriad o'r boblogaeth, defnydd o'r iaith Gymraeg, ffaith bod llawer o dwristiaeth yn y Sir a bod natur gamblo yn cyd fynd a'r meysydd carafanau mawr), bydd y wybodaeth yn llunio patrymau er mwyn creu darlun clir o'r sefyllfa ar gyfer y busnesau.

Adroddwyd bod y Rheolwr Trwyddedu wedi dechrau ar y gwaith o lunio polisi drafft gyda bwriad o'i gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu cyn dechrau ar y broses ymgynghori gyhoeddus, unwaith bydd y 'proffil ardal lleol' wedi ei gwblhau, O ran amserlen, nodwyd y dylai'r Polisi Drafft fod yn barod erbyn mis Mehefin 2016.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Cymeradwyo yr angen i adolygu'r Datganiad o Bolisi Gamblo
- Cynnydd mewn hysbysebion gamblo ar y teledu ac felly angen sicrhau bod y polisiau yn addas a chywir

Derbyniwyd y wybodaeth ac awgrymwyd cynnal cyfarfod arbennig petai'r Polisi Drafft wedi ei gwblhau cyn hynny.

## 7. YMARFERIAD FFORDD GWYNEDD (gyda Thrwyddedu)

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu ar ymarferiadau diweddar gan y gwasanaeth i adolygu prosesau gwaith Trwyddedu er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i'r hyn sydd yn cael ei weithredu. Nodwyd bod sawl holiadur wedi ei gwblhau i ganfod barn a sylwadau am waith yr adran ac ategwyd bod y sylwadau hyn wedi bod yn gefnogol iawn ac wedi cynnig ystyriaethau posib e.e., cyfleoedd hunanwasanaeth. Adroddwyd mai'r cam nesaf yw rhestru ac adolygu'r prosesau hyngan eu blaenoriaethu yn ôl eu hangen.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth;

- Awgrym y dylid sicrhau cyfathrebu a chydweithio da rhwng yr unedau gwahanol o fewn Gwarchod y Cyhoedd i sicrhau bod unrhyw gŵyn neu sylw yn cael ei gyfarch.
- Awgrym i gynnal ymweliadau di rybudd neu gwsmer ffug i fusnesau
- Angen addysgu'r cyhoedd o ofynion ac amserlen gwrandawiad
- Angen addysgu darparwyr gwasanaeth
- Angen amlygu prinder adnoddau i'r Pwyllgor Trwyddedu

Mewn ymateb i’r sylw ynglŷn ag amserlen gwrandawiadau, nodwyd bod bwriad i fesur y perfformiad yma drwy ddangosydd newydd - ‘cyfnod prosesu cais’.

Ategwyd bod adnoddau'r Uned Trwyddedu yn dynn iawn ac awgrymwyd efallai mai canlyniad ymarfer Ffordd Gwynedd fydd yr angen am adnoddau ychwanegol.

Diolchwyd i’r Rheolwr Trwyddedu am y wybodaeth a rhoddwyd canmoliaeth i’r Uned fechan am eu gwaith da.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:50am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 09.02.16

**Yn bresennol**: Cyng. Eryl Jones Williams, Annwen Hughes ac Annwen Daniels

**Hefyd yn bresennol:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams . Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – MOTOR FUEL LTD, CONVENIENCE STORE, PORTHMADOG FILLING STATION, PORTHMADOG**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Chris Mitchener (asiant Licesning Solutions ar ran cwmni Motor Fuel Ltd)

**Eraill a fynychwyd:** Cynghorydd Jason Humphreys (Aelod Lleol Dwyrain Porthmadog), Cynghorydd Selwyn Griffiths ( ar ran Cyngor Tref Porthmadog)

**Ymddiheuriadau:** Dim i'w nodi

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer 'Convenience Store,' Porthmadog Filling Station, Porthmadog. Amlygwyd bod y cais yn un ar gyfer siop hwylus un llawr i'w leoli ar flaengwrt y garej bresennol gyda bwriad o werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo a darparu lluniaeth hwyr y nos ar yr eiddo. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cynnwys camau priodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu fel rhan o'r cais.

Yn yr adroddiad cyfeiriwyd at y wybodaeth gyfreithiol berthnasol: Paragraff 5.21 o'r Canllawiau Diwygiedig (Mawrth 2015) a gyhoeddwyd dan Adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 lle nodi'r bod Adran 176 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn gwahardd gwerthu neu gyflenwi alcohol o eiddo a ddefnyddir yn bennaf fel garej, neu yn rhan o eiddo a ddefnyddir yn bennaf fel garej. Pwysleisiwyd bod eiddo yn cael ei ddefnyddio yn bennaf fel garej os ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer un neu fwy o'r canlynol:

- Adwerthu petrol

- Adwerthu Derv
- Gwerthu cerbydau modur
- Cynnal a chadw cerbydau modur

Pwysleisiwyd mai mater i'r awdurdod trwyddedu yw penderfynu, ar saill yr amcanion trwyddedu, a yw'n briodol i'r eiddo gael trwydded. Tynnwyd sylw at yr atodlen weithredu a'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais ynghyd a gwybodaeth ychwanegol.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori, nodwyd nad oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd unrhyw sylwadau ac nad oedd Heddlu Gogledd Cymru yn gwrthwynebu y cais. Derbyniwyd dau wrthwynebiad i'r cais gan yr Aelod Lleol a Chyngor Tref Porthmadog.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

b) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd asiant ar ran yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategodd y sylwadau canlynol:
   - Y bwriad oedd gwerthu alcohol rhwng 6:00am a 23:00pm – oriau rhesymol
   - Nad oedd unrhyw sylwadau / wrthwynebiad wedi eu cyflwyno gan yr Heddlu, preswylwyr lleol neu unrhyw awdurdod cyfrifol arall
   - Nad oedd unrhyw berthynas rhwng yfed a gyrru a gwerthu alcohol ar flaengwrt garej
   - Nad oedd 'angen' yn fater Deddf Trwyddedu
   - Nad oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno gyda'r awgrym i osod labeli ar boteli alcohol - dim awdurdod cyfrifol wedi ceisio hyn
   - Nad oedd tystiolaeth i brofi y byddai gwerthiant alcohol o'r siop yn cyfrannu at drosedd ac anrhefn
   - Nad oedd materion trafnidiaeth yn rhan o'r cais
   - Bod alcohol yn cael ei werthu mewn modd cyfrifol – y staff yn derbyn hyfforddiant priodol
   - Bydd biniau gwastraff yn cael eu gosod ar y blaengwrt
   - Nad yw'r garej yn bodoli ar werthu tanwydd yn unig - rhaid buddsoddi mewn siop hwylus
   - Bydd system teledu cylch cyfyng newydd yn cael ei osod ar y safle - petai y cais yn cael ei ganiatáu, bydd nifer y camerâu yn cynyddu.
   - Ni ellid rhoi ystyriaeth i 'beth all ddigwydd' - rhaid ystyried y dystiolaeth gerbron.

Mewn ymateb i gwestiwn nodwyd y bydd y siop yn cau yn wirfoddol am 23:00pm gydag agoriad gweini i werthu nwyddau ar ôl hynny. Bydd hyn yn sicrhau diogelwch ac yn amddiffyn a gwarchod y staff.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan y Rheolwr Trwyddedu o ran profi mai defnydd craidd yr eiddo yw'r siop, nododd yr asiant bod y busnes eisoes wedi cynyddu 10% drwy gyflwyno cynnyrch newydd, gyda bwriad o fuddsoddiad pellach i wneud i'r safle ymddangos fel safle manwerthu.

c) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol:
- Y buasai yn gwerthfawrogi cydweithrediad yr eiddo i gefnogi'r cynllun labeli poteli (fel arwydd o gyfrifoldeb)
- Nad oedd yn derbyn y dadansoddiad o lif cwsmeriaid a ragwelwyd (dogfen a gyflwynwyd gyda'r cais) gan nad oedd elfen dymhorol wedi cael ei hystyried wrth amcanu'r ffigyrau
- Pryder bod y safle yn agos at ardaloedd poblogaidd lle mae ymarferion yfed gyda'r nos – rhagwelwyd y byddai'r garej yn atynfa
- Pryderon eisoes yn bodoli gyda thraffig - rheswm arall i ymweld â'r siop yn debygol o uchafu trafferthion
- Yn hanesyddol garej sydd wedi bod ar y safe - dim lle i siop

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd yfed alcohol yn weithgaredd trwyddedig ac anodd fuasai tystiolaethu bod yr alcohol sydd yn cael ei brynu ar y safle yn cael ei yfed mewn mannau gerbron.

ch) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd Y Cynghorydd Selwyn Griffiths ar ran Cyngor Tref Porthmadog y sylwadau canlynol:
- Tanwydd yw prif flaenoriaeth y safle – dadleuwyd yn gryf mai garej gwerthu tanwydd sydd yma ac nid siop hwylus
- Siomedig nad oedd ogwydd tymhorol wedi ei ystyried yn y dadansoddiad o lif cwsmeriaid
- Angen sicrhau sylwadau cyfreithiol, manwl wrth ystyried defnydd craidd yr eiddo.
- Gwerthu alcohol ar y safle yn debygol o ail godi problemau'r gorffennol

d) Wrth grynhoi ei gais, nododd asiant ar ran yr ymgeisydd bod rhaid ystyried y ffeithiau a'r dystiolaeth sydd yn cael i gyflwyno ar y diwrnod ac os bydd unrhyw bryderon yn codi neu yn cael eu hamlygu bydd hawl i adolygu'r drwydded. Petai problemau yn codi, bydd modd cydweithio gyda chefnogaeth y Cyngor Tref a'r Heddlu. Nodwyd y byddai modd ystyried labelu poteli am gyfnod byr - eto gyda chefnogaeth y Cyngor Tref a'r Heddlu.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 11:50am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 04.03.16

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : W Tudor Owen (Cadeirydd), Ann Williams a John Wyn Williams

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD I DRWYDDED EIDDO – THE OLD MARKET HALL, STRYD Y PLAS, CAERNARFON**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

**Ar ran yr eiddo:** Mr David Williams (ymgeisydd) a Mr Edward Grant (Capita PLC - asiant yr ymgeisydd)

**Eraill a fynychwyd:** Corrina Favento, Mandy Mathews a Cliff Roberts (preswylwyr cyfagos); Moira Duell-Parri (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd)

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am amrywiad i drwydded eiddo ar gyfer The Old Market Hall, Stryd y Plas, Caernarfon. Amlygwyd bod y ffurflen gais yn nodi bod natur y sefydliad wedi newid ers i'r busnes ddechrau yng Ngorffennaf 2014 a bod yr eiddo wedi cynnal sawl digwyddiad amrywiol o dan drefn Hysbyseb Digwyddiad Dros Dro. Natur yr amrywiad arfaethedig yw ymestyn y gweithgareddau trwyddedig i gynnwys yr holl fathau o adloniant wedi ei rheoleiddio, ymestyn gwerthu alcohol a darparu lluniaeth hwyr y nos. Cyfeiriwyd at y tabl a oedd yn manylu'r amrywiad. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cynnwys camau priodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu fel rhan o'r cais.

   Yn dilyn cyfnod ymgynghori, nodwyd nad oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub unrhyw sylwadau ar y cais. Nid oedd Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn gwrthwynebu y cais, ond roeddynt yn cynnig amodau penodol i'w hychwanegu ar y drwydded. Adroddwyd bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn cadarnhad gan yr ymgeisydd ei fod yn derbyn yr amodau hyn ac yn dymuno eu gosod ar y drwydded. Derbyniwyd tri gwrthwynebiad i'r cais gan breswylwyr lleol yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu o Atal Niwsans Cyhoeddus. Awgrymwyd un gwrthwynebydd nad oedd hysbyseb y cais wedi ei arddangos mewn lle amlwg, ond bod yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod yr hysbysebu yn cwrdd â'r rheoliadau perthnasol. Derbyniwyd hefyd un llythyr o gefnogaeth gan Cyngor Tref Caernarfon.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag oriau agor sefydliadau cyfagos, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod oriau trwyddedu sefydliadau cyfagos yn amrywio gydag amrediad o werthu alcohol hyd at 1am; chwarae cerddoriaeth hyd at 1am ac oriau cau hyd at 2am.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd asiant ar ran yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategodd y sylwadau canlynol:
- Bod yr eiddo yn cael ei reoli yn gyfrifol
- Y bwriad yw isafu unrhyw bryderon gan breswylwyr lleol a'u bod yn derbyn sylwadau a phryderon y gwrthwynebwyr
- Bod y busnes yn cynnig lletygarwch ac adloniant
- Bod yr eiddo yn cau i'r cyhoedd am 12:30am a bod pawb yn ymadael drwy ddrysau Stryd y Farchnad
- Bod ynyswyr sŵn eisoes wedi cael eu gosod
- Bod Teledu Cylch Cyfyng (ar gais yr Heddlu) wedi eu gosod gyda chydweithrediad yr Heddlu
- Bod bwriad i gydweithio gyda chwmni rhestredig lleol i ddarparu goruchwylwyr drysau
- Bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Capita
- Bydd Her 21 a Her 25 yn cael eu cefnogi
- Yr ymgeisydd yn barod i gydweithredu gyda'r Adran Trwyddedu

Mewn ymateb i gwestiwn nodwyd bod un cwyn o sŵn wedi ei gyflwyno a bod hyn bellach wedi ei ddatrys gyda gosodiad ynysydd sŵn ac o ganlyniad y cwyn wedi ei dynnu yn ôl. Ategwyd bod yr ymgeisydd wedi cadw at yr amcanion trwyddedu ac wedi cwblhau cyfnod prawf o flwyddyn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â mynedfa / allanfa i Stryd Twll yn y Wal, cadarnhawyd mai at ddefnydd drws tân yn unig yw'r drysau hyn, gyda 3 mynediad / allanfa i Stryd y Plas.

ch) Cydnabuwyd llythyr o wrthwynebiad i'r cais a dderbyniwyd gan Rita a Brian Geary

d) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd Mandy Mathews, preswylydd lleol oedd yn byw gyferbyn a'r eiddo, ei bod yn gwrthwynebu y cais ar sail sŵn. Nid oedd ganddi unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad ac roedd yn cefnogi'r fenter gan berson lleol. Ategwyd nad oedd wedi gwneud cwyn swyddogol am y sŵn ac nad oedd ganddi dystiolaeth bod y sŵn i gyd yn dod o'r eiddo dan sylw. Nodwyd hefyd ei bod wedi cytuno i gyfarfod cymodi.

Amlygwyd bod y sŵn, yn ystod digwyddiadau penodol, yn effeithio ar ei ffordd o fyw gan ei bod yn codi yn gynnar yn y bore i fynd i'w gwaith. Ychwanegwyd bod sŵn bandiau byw gyda'r nos yn rhy uchel - y sŵn yn dod drwy ddrws toiledau'r eiddo a drwy ffenestri sydd uwchlaw'r adeilad. Cyfeiriwyd at un achlysur bod y sŵn wedi mynd ymlaen at 00:40am, ond nad oedd wedi cwyno i'r Heddlu nac i'r ymgeisydd. Nodwyd nad oedd ganddynt ffenestri dwbl ar eu heiddo ac felly effaith y sŵn yn uwch. Gofynnwyd am sicrwydd na fydd sŵn diangen ac awgrymwyd chwarae cerddoriaeth hyd at 11:45pm yn unol ag eiddo cyfagos.

dd) Mewn ymateb i'r sylw am gyfarfod cymodi, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod cais am gyfarfod cymodi wedi ei gyflwyno i'r holl bartïon wedi i'r ymgeisydd dderbyn amodau'r Heddlu ac Iechyd yr Amgylchedd. Amlygwyd nad oedd POB parti yn fodlon gyda chyfarfod cymodi ac felly gwnaed y penderfyniad i barhau gyda gwrandawiad.

e) Cydnabuwyd llythyr o wrthwynebiad i'r cais a dderbyniwyd gan Mr Harry Mathews.

f) Cydnabuwyd llythyr o gefnogaeth a dderbyniwyd gan Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

ff) Rhoddwyd cyfle i Corinna Faventa, perchennog bwyty cyfochrog a'r eiddo i rannu ei sylwadau er nad oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig o fewn y cyfnod ymgynghori. Nododd y Cadeirydd bod gan Ms Faventa gyswllt uniongyrchol a'r eiddo. Nid oedd gan yr ymgeisydd na'r asiant wrthwynebiad i hyn.

Nodwyd bod Ms Faventa wedi gwneud cwyn swyddogol i Adran Iechyd yr Amgylchedd yn ymwneud a sŵn ar noson ym mis Tachwedd 2015. Amlygodd bod nifer o gwsmeriaid y bwyty wedi cwyno am y sŵn a rhai wedi ymadael. Rhannwyd y sylwadau gyda'r ymgeisydd ac er nad oedd ar gallu i ohirio'r adloniant ar y noson, gwnaeth welliannau i'r eiddo i isafu sŵn. Tynnwyd y cwyn yn ôl. Gyda'r bwyty wedi cau dros y Gaeaf, nid oedd tystiolaeth bod y gwelliannau wedi llwyddo.

g) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd Moria Ann Duell-Parri, Swyddog Iechyd yr Amgylchedd bod dau gŵyn wedi ei dderbyn gan yr adran a bod un o'r rheiny wedi ei dynnu yn ôl. Ymwelwyd ag eiddo'r cwynydd arall ar yr 22ain o Chwefror 2016. Adroddwyd nad oedd sŵn i'w glywed ar y noson, ond nodwyd bod y ffenestri gwydr dwbl wedi cau ac efallai gwahanol fuasai'r effaith yn yr Haf (gyda ffenestri wedi eu hagor). Adroddwyd bod goleuni i'w weld o'r Old Market Hall oedd yn amlygu nad oedd ynysiad sŵn effeithiol. Amlygwyd parodrwydd y swyddog i gynghori'r ymgeisydd i wella'r sefyllfa. Adroddwyd hefyd nad oedd manylion am y gwaith o ynysu sŵn wedi ei gadarnhau.

Mewn ymateb i'r sylw, mynegodd y Cadeirydd bod yr ymgeisydd wedi cytuno i amodau Adran Iechyd yr Amgylchedd ac anogwyd yr ymgeisydd i gydweithio gyda'r swyddog i geisio'r gorau o'r sefyllfa.

ng) Cydnabuwyd llythyr a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a thynnwyd sylw at yr amodau a restrwyd yn y llythyr

i) Wrth grynhoi ei gais, nododd asiant ar ran yr ymgeisydd ei fod yn derbyn y sylwadau ac yn derbyn amodau'r Heddlu ac Iechyd yr Amgylchedd. Ategwyd eu parodrwydd i gydweithio gyda chymdogion a'r gymuned ac y bydd parhad yn eu buddsoddiad i geisio gwella'r eiddo wrth i'r busnes ddatblygu. Diolchwyd am y gefnogaeth a chroesawyd y cyngor. Ategwyd nad oedd patrwm i'r sŵn ac nad oedd yn barhaus. Gwnaed cais i'r geiriad 'asesiad risg tân' gael ei ddiddymu o'r drwydded eiddo gan ei fod yn cael ei gyfarch gan Ddeddfwriaeth ar wahân.

Manylodd yr ymgeisydd ar ei barodrwydd i gydweithio a gwrando ar sylwadau ei gymdogion. Byddai hefyd yn barod i gydweithio gyda Swyddog yr Amgylchedd ac yn agored i syniadau o leihau sŵn.

**PENDERFYNIAD**

**Yn dilyn ystyriaeth o'r cais a'r sylwadau hynny oedd yn berthnasol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003, penderfynodd yr Is-bwyllgor ganiatáu'r cais. Gwyrwyd y drwydded fel a ganlyn:**

1. **Caniateir cyflenwi alcohol, ar ac oddi ar yr eiddo, o ddydd Llun i ddydd Sul, rhwng 09:00 a 00:00.**
2. **Caniateir cynnal gweithgareddau trwyddedig A, B, C, D, E, F, G ac H o'r ffurflen gais trwyddedu, o ddydd Llun i ddydd Sul, rhwng 09:00 a 00:00.**
3. **Caniateir darparu lluniaeth hwyr yn nos, o ddydd Llun i ddydd Sul, rhwng 23:00 a 00:00.**
4. **Oriau agor yr eiddo yw o ddydd Llun i ddydd Sul, rhwng 08:00 a 00:30.**
5. **Ychwanegu amodau rheoli sŵn a argymhellwyd gan Uned Iechyd Amgylcheddol y Cyngor i'r drwydded.**
6. **Ychwanegu amodau teledu cylch cyfyng a argymhellwyd gan yr Heddlu i'r drwydded.**
7. **Tynnu'r amod "asesiad risg tân" oddi ar y drwydded.**

**Wrth ddod at eu penderfyniad, ystyriwyd y materion canlynol gan yr Is-bwyllgor:**

1. **Bod yr ymgeisydd yn fodlon i amodau a argymhellwyd gan Iechyd yr Amgylchedd a'r Heddlu gael eu hychwanegu i'r drwydded.**
2. **Bod yr ymgeisydd wedi gofyn i'r amod asesiad risg tân gael ei dynnu oddi ar y drwydded bresennol gan fod gofynion tân yn cael eu cyfarch mewn deddfwriaeth arwahân, ac felly'r amod yn ddiangen.**
3. **Ystyriwyd sylwadau perthnasol y partïon a gyflwynodd sylwadau ymlaen llaw, ynghyd â sylwadau perchennog Stones Bistro, Stryd Twll yn y Wal, i'r graddau bod y sylwadau yn berthnasol i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.**
4. **Yn benodol fe ystyriwyd sylwadau Mr a Mrs Geary, Ms Mandy Matthews a Mr Harry Matthews yn codi pryderon am sŵn yn tarddu o'r eiddo yn ystod digwyddiadau. Er i'r Is Bwyllgor dderbyn bod sŵn yn gallu bod yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus, nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ar sail y dystiolaeth ddaeth i law bod yna broblem sŵn gyda'r eiddo hwn y gellid ei ddisgrifio fel niwsans cyhoeddus. Ni dderbyniwyd tystiolaeth o ddyddiadau digwyddiadau, lefel y sŵn yn ystod y digwyddiadau hynny, nifer y digwyddiadau sŵn, na faint o bobl a effeithiwyd. Dau gŵyn yn unig a ddaeth i law'r uned Amgylchedd (gydag un wedi ei thynnu yn ôl) ac nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried hynny yn dystiolaeth ddigonol o niwsans cyhoeddus.**
5. **Cafodd yr Is-bwyllgor eu cynghori ar yr hyn oedd yn cael ei ystyried fel niwsans cyhoeddus o dan gyfraith gwlad. Cyfeiriwyd yr Is-bwyllgor at achos National Coal Board v Thorne [1976] 1 WLR 543: "*a public nuisance [is] an act or omission which materially affects the material comfort and quality of life…"* Cyfeiriwyd yr aelodau hefyd at R v Rimmington [2005] UKHL 63 am y "*requirement of common injury*", h.y. mae angen i gyfran sylweddol o'r cyhoedd gael ei effeithio. Nid yw'n ddigon sefydlu bod niwed wedi ei achosi i unigolion penodol.**
6. **O dan yr amgylchiadau nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ar y dystiolaeth bod unrhyw broblem sŵn yn deillio o'r eiddo gael ei ystyried – fel mater o gyfraith – fel niwsans cyhoeddus.**

   **Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r amcanion trwyddedu.**
   - **Trosedd ac Anhrefn**
   - **Diogelwch y Cyhoedd**
   - **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus**
   - **Amddiffyn Plant rhag Niwed**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:15am a daeth i ben am 12:00pm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **20 MEHEFIN 2016** |
| **TEITL:** | **POLISI DOSBARTHU FFILMIAU** |
| **PWRPAS:** | **ER GWYBODAETH A PHENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**Pwrpas**

1. Mae Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Trwyddedu, yn gyfrifol am awdurdodi dangos ffilmiau'n gyhoeddus. Mae Adran 20 Deddf Trwyddedu 2003 (y Ddeddf) yn datgan pan fo Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb yn caniatáu dangos ffilm(iau), rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n nodi y dylid cyfyngu mynediad plant i ffilmiau yn unol â'r argymhellion a wnaed un ai gan y British Board of Film Classification (BBFC), neu gan yr awdurdod trwyddedu ei hun.

2. Pwrpas y Polisi hwn yw llunio trefn ffurfiol yr Awdurdod Trwyddedu i ddosbarthu ffilmiau nad oeddynt eisoes wedi'u dosbarthu, apeliadau dosbarthwyr yn erbyn penderfyniadau'r BBFC neu geisiadau i ail-ddosbarthu ffilmiau.

3. Pan fo eiddo yn ceisio neu'n bwriadu dangos ffilm(iau), rhaid i'r lleoliad gael Trwydded Eiddo, Tystysgrif Eiddo Clwb neu Rybudd Digwyddiad Dros Dro dan Ddeddf Trwyddedu 2003

4. I grynhoi, rhaid i ffilmiau sy'n cael eu dangos yn gyhoeddus ar eiddo trwyddedig gael eu dosbarthu gan y BBFC neu eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu dan bwerau Deddf Trwyddedu 2003.

5. Wrth awdurdodi ffilm(iau) bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y Canllawiau yn adran 182 o Deddf Trwyddedu 2003 (y Canllawiau Cenedlaethol) bob tro.

6. O safbwynt dangos ffilmiau a gwyliau ffilmiau, Amddiffyn Plant rhag Niwed yw'r amcan trwyddedu mwyaf perthnasol.

7. Efallai y bydd gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu awdurdodi ffilm sydd wedi'i dosbarthu eisoes gan y BBFC mewn dwy sefyllfa wahanol:

   a) gall dosbarthwr ffilm apelio yn erbyn penderfyniad y BBFC a gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu ail-ddosbarthu/awdurdodi'r ffilm er mwyn iddi gael ei dangos yn lleol (gydag argymhellion am gyfyngiadau oedran); ac

   (b) gall parti annibynnol ofyn i'r Awdurdod Trwyddedu ail-ddosbarthu/awdurdodi'r ffilm er mwyn iddi gael ei dangos yn lleol (gydag argymhellion am gyfyngiadau oedran).

8. Yn ogystal, efallai y bydd gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu roi caniatâd i ffilm nad ydyw wedi'i dosbarthu eisoes, i gael ei dangos. Fel arfer, mae hyn yn digwydd yn yr achosion a ganlyn:

   - Gŵyl ffilm dros gyfnod penodol o amser
   - Sgrinio ffilm unwaith ac am byth
   - Hysbyseb ffilm

**Canllawiau perthnasol ar gyfer dosbarthu ffilmiau**

9. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried bod y drefn ddosbarthu a ddefnyddir gan y BBFC wedi'i deall a'i derbyn yn genedlaethol. Felly, bydd yn defnyddio'r drefn hon ac unrhyw ddiwygiadau iddi fel sail ar gyfer penderfynu ar ei argymhelliad / argymhellion ar gyfyngu mynediad plant i'r ffilm(iau). Fodd bynnag, dylid nodi nad oes rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ddilyn y canllawiau hyn.

**Dirprwyo pwerau o dan a20 Deddf Trwyddedu 2003**

10. Caiff y pŵer i awdurdodi dosbarthiad ffilm ei ddirprwyo i Bennaeth Rheoleiddio gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog.

11. Unwaith y bydd ffilm wedi ei hawdurdodi gan Awdurdod Trwyddedu, bydd yn cael ei hawdurdodi ar gyfer arddangosfa neu ŵyl benodol yn unig, yn amodol ar yr argymhellion a osodir gan yr Awdurdod Trwyddedu (oni bai y gwneir cais am ail-ddosbarthiad pellach). Bydd manylion yr awdurdodiad gan gynnwys yr argymhellion ar gael yn Adain Trwyddedu'r Cyngor.

**Gosod ffioedd**

12. Nid oes unrhyw ffi statudol wedi ei bennu yn y ddeddfwriaeth ar gyfer pwrpas dosbarthu ffilmiau. Mae rhai Awdurdodau lleol yn codi ffioedd am y broses er mwyn adennill costau yn unig.

13. Credir fod yn rhesymol i gyflwyno ffi am y broses sydd yn adlewyrchu cost amser y swyddog yn gwylio'r ffilm a chost cynhyrchu a phrosesu'r dystysgrif.

**ARGYMHELLIAD**

Argymhellir mabwysiadu'r polisi fel y cyflwynwyd; yn ogystal a chymeradwyo codi ffi ar gyfer dosbarthu ffilm er pwrpas adennill costau yn unig.

Cyngor Gwynedd

**Polisi Dosbarthu Ffilmiau**

## Pwrpas

Mae Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Trwyddedu, yn gyfrifol am awdurdodi dangos ffilmiau'n gyhoeddus. Mae Adran 20 Deddf Trwyddedu 2003 (y Ddeddf) yn datgan pan fo Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb yn caniatáu dangos ffilm(iau), rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n nodi y dylid cyfyngu mynediad plant i ffilmiau yn unol â'r argymhellion a wnaed un ai gan y British Board of Film Classification (BBFC), neu gan yr awdurdod trwyddedu ei hun.

Pwrpas y Polisi hwn yw llunio trefn ffurfiol yr Awdurdod Trwyddedu i ddosbarthu ffilmiau nad oeddynt eisoes wedi'u dosbarthu, apeliadau dosbarthwyr yn erbyn penderfyniadau'r BBFC neu geisiadau i ail-ddosbarthu ffilmiau.

Pan fo eiddo yn ceisio neu'n bwriadu dangos ffilm(iau), rhaid i'r lleoliad gael Trwydded Eiddo, Tystysgrif Eiddo Clwb neu Rybudd Digwyddiad Dros Dro dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Diffiniad plant yw unrhyw unigolyn sydd dan 18.

Yn ôl Deddf Trwyddedu 2003, diffiniad dangos ffilm yw dangos lluniau sy'n symud.

I grynhoi, rhaid i ffilmiau sy'n cael eu dangos yn gyhoeddus ar eiddo trwyddedig gael eu dosbarthu gan y BBFC neu eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Trwyddedu dan bwerau Deddf Trwyddedu 2003.

Wrth awdurdodi ffilm(iau) bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y Canllawiau yn adran 182 o Deddf Trwyddedu 2003 (y Canllawiau Cenedlaethol) bob tro.

Efallai y bydd gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu awdurdodi ffilm sydd wedi'i dosbarthu eisoes gan y BBFC mewn dwy sefyllfa wahanol:

(a) gall dosbarthwr ffilm apelio yn erbyn penderfyniad y BBFC a gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu ail-ddosbarthu/awdurdodi'r ffilm er mwyn iddi gael ei dangos yn lleol (gydag argymhellion am gyfyngiadau oedran); ac

(b) gall parti annibynnol ofyn i'r Awdurdod Trwyddedu ail-ddosbarthu/awdurdodi'r ffilm er mwyn iddi gael ei dangos yn lleol (gydag argymhellion am gyfyngiadau oedran).

Yn ogystal, efallai y bydd gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu roi caniatâd i ffilm nad ydyw wedi'i dosbarthu eisoes gael ei dangos. Fel arfer, mae hyn yn digwydd yn yr achosion a ganlyn:

- Gŵyl ffilm dros gyfnod penodol o amser
- Sgrinio ffilm unwaith ac am byth
- Hysbyseb ffilm

**1. Polisi Cyffredinol**

Yn unol â pharagraff 10.31 y Canllawiau Cenedlaethol, amddiffyn plant rhag niwed yw prif ffocws yr Awdurdod Trwyddedu. Ni fydd yn defnyddio ei bwerau i sensro ffilmiau oni bai bod rheswm amlwg i gredu fod hyn yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

O safbwynt dangos ffilmiau a gwyliau ffilmiau, Amddiffyn Plant rhag Niwed yw'r amcan trwyddedu mwyaf perthnasol.
Mae Arweiniad Adran 182 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn nodi:

*Mae amddiffyn plant rhag niwed yn cynnwys amddiffyn plant rhag niwed moesol, seicolegol a chorfforol, a byddai hyn yn cynnwys amddiffyn plant rhag dod i gysylltiad ag iaith fras a rhegfeydd rhywiol, er enghraifft, yng nghyd-destun arddangosfeydd ffilm neu lle darperir adloniant i oedolion.*

**2. Egwyddorion Dosbarthu Ffilmiau**

Mae'r BBFC yn dosbarthu ffilmiau yn unol â'i Ganllawiau cyhoeddedig, sy'n seiliedig ar waith ymchwil helaeth i farn y cyhoedd a chyngor arbenigol. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dyblygu gwaith y BBFC drwy benderfynu dosbarthu ffilmiau ei hun. Fel arfer, y dosbarthiadau a argymhellwyd gan y BBFC fydd yn berthnasol, oni bai bod rhesymau lleol da iawn i'r Awdurdod Trwyddedu fabwysiadu'r rôl hon.

Mae gan Gyngor Gwynedd yr hawl i wrthod ystyried cais am ddosbarthiad ac argymell y dylid cyflwyno'r ffilm i'r BBFC. Gwneir hyn ym mhob achos pan fo crynodeb y ffilm yn awgrymu y dylid ei hystyried am ddosbarthiad arbenigol a chyfyngedig sy'n nodi nad yw'n addas i blant dan 18 (*Restricted 18*).

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried bod y drefn ddosbarthu a ddefnyddir gan y BBFC wedi'i deall a'i derbyn yn genedlaethol. Felly, bydd yn defnyddio'r drefn hon ac unrhyw ddiwygiadau iddi fel sail ar gyfer penderfynu ar ei argymhelliad / argymhellion ar gyfyngu mynediad plant i'r ffilm(iau). Fodd bynnag, dylid nodi nad oes rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ddilyn y canllawiau hyn.

Pan fo eiddo trwyddedig yn gwneud cais i ddangos ffilm nad yw wedi'i dosbarthu gan y BBFC, bydd gan yr Awdurdod Trwyddedu gyfrifoldeb dros awdurdodi'r ffilm honno. Mewn achos o'r fath, bydd y drefn a nodir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon yn cael ei dilyn.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr egwyddor o fewn Deddf Hawliau Dynol 1998 sy'n nodi y dylai oedolion gael yr hawl i ddewis eu hadloniant eu hunain. Ni ddylai deunydd dorri cyfraith droseddol, gan gynnwys deunydd a ystyrir yn anllad dan ddehongliad presennol Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 neu sydd wedi'i greu drwy gomisiynu trosedd.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr holl ddeunydd sy'n destun y cais yn cydymffurfio â dehongliad presennol Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959, Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol ac nad yw wedi'i greu drwy gomisiynu trosedd.

Bydd unrhyw awdurdod a roir i ddangos ffilm(iau) gan yr Awdurdod Trwyddedu yn berthnasol pan fo ffilm(iau) yn cael eu dangos o fewn Sir Gwynedd yn unig, ac nid yw'n effeithio ar awdurdodiad nac argymhellion mewn unrhyw ardal arall.

**Dirprwyo pwerau dan a20 Deddf Trwyddedu 2003**
Caiff y pŵer i awdurdodi dosbarthiad ffilm ar gyfer y dibenion a nodir yn y ddogfen hon ei ddirprwyo i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog.

Unwaith y bydd ffilm wedi ei hawdurdodi gan Awdurdod Trwyddedu, bydd yn cael ei hawdurdodi ar gyfer arddangosfa neu ŵyl benodol yn unig, yn amodol ar yr argymhellion a osodir gan yr Awdurdod Trwyddedu (oni bai y gwneir cais am ail-ddosbarthiad pellach). Bydd manylion yr awdurdodiad gan gynnwys yr argymhellion ar gael yn Adain Trwyddedu'r Cyngor.

Mae cyflwyno unrhyw awdurdodiad gan Gyngor Gwynedd yn llwyr gyfyngedig i'r awdurdodiad o fewn Sir Gwynedd, a thybir fod yr holl ganiatadau a thrwyddedau trydydd parti perthnasol mewn perthynas ag unrhyw a phob hawlfraint, gwybodaeth gyfrinachol a phob hawl eiddo deallusol arall wedi'u derbyn.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob awdurdodiad ar ei deilyngdod ei hun, ac efallai y bydd yn gosod argymhellion ychwanegol sy'n fwy penodol os ystyrir fod angen gwneud hynny er mwyn cydymffurfio â'r Amcan Trwyddedu sy'n ymwneud ag Amddiffyn Plant rhag Niwed.

Pan fo'r Awdurdod Trwyddedu yn awdurdodi deunydd nad yw wedi'i ddosbarthu i gael ei ddangos, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gofyn am addewid gan yr ymgeisydd ei fod wedi'i fodloni ar ôl ymgymryd ag ymholiadau priodol nad yw unrhyw ddeunydd sydd i'w ddangos yn groes i ddehongliad presennol Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959, Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988 nac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall ac nad ydyw wedi'i greu drwy gomisiynu trosedd.

Yn ogystal, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gyfrifol am unrhyw ddeunydd sydd wedi'i greu drwy gomisiynu trosedd. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau nad yw ffilm na hysbyseb yn torri'r gyfraith.

Pan fo Awdurdod Trwyddedu yn penderfynu gwrthod awdurdodi ffilm(iau), bydd rhesymau clir a chryno yn cael eu darparu.

**3. Y Drefn ar gyfer Ceisiadau am Awdurdod ar gyfer y Drefn Gymeradwyo Ffilmiau sydd Eisoes wedi'u Dosbarthu gan y BBFC**

Bydd ceisiadau am awdurdod mewn perthynas â ffilmiau sydd eisoes wedi'u dosbarthu gan y BBFC yn cael eu cyfeirio at y Rheolwr Trwyddedu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, a fydd hefyd yn penderfynu arnynt.

Dylid cyflwyno ceisiadau yn ysgrifenedig i'r Adain Trwyddedu o fewn Gwarchod y Cyhoedd.

Bydd yr holl geisiadau'n cynnwys y ffilm(iau) mewn fformat DVD ble bo'n bosib er mwyn osgoi oedi, a'r ymgeisydd fydd yn talu am unrhyw gostau. Os nad yw fformat DVD yn bosib, bydd lleoliad addas yn cael ei drefnu i wylio'r ffilm. Bydd hyn yn rhoi amser i'r swyddogion Trwyddedu awdurdodedig wylio ac awdurdodi'r ffilm(iau) fel bod modd i ddeilydd y drwydded lynu at unrhyw argymhellion am gyfyngiadau oedran y gall yr Awdurdod Trwyddedu eu gosod. Mewn unrhyw achos, dylid cyflwyno pob cais ar ffurflen gais yr Awdurdod Trwyddedu o leiaf **28 diwrnod** cyn yr arddangosiad arfaethedig.

Pan fo unigolyn neu sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â’r ffilm(iau) yn gwneud cais i ffilm sydd eisoes wedi ei dosbarthu gan y BBFC gael ei hail-ddosbarthu, nid oes disgwyl iddynt ddarparu copi o'r ffilm(iau). Yna, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gwneud trefniadau addas i wylio'r ffilm. Derbynnir hefyd nad yw’n bosib rhoi rhybudd o **28 diwrnod** cyn yr arddangosiad arfaethedig bob tro.

Rhaid i bob cais gynnwys rhesymau manwl dros y cais. Ymdrinnir â cheisiadau mor fuan ag sy'n bosib oherwydd gwerthfawrogir mai dim ond am gyfnod eithaf byr y mae ffilmiau'n cael eu dangos mewn sinemâu yn gyffredinol.

Yna, bydd swyddogion trwyddedu awdurdodedig yn gwylio'r ffilm gyfan ac yn ei hasesu yn erbyn y canllawiau BBFC a Chanllawiau Cenedlaethol a bydd Rhybudd Penderfyniad yr awdurdodiad yn cael ei gyflwyno o fewn 5 diwrnod gwaith o ddechrau gwylio'r ffilm. Yna, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi cyngor ffurfiol i'r ymgeisydd a deilydd y drwydded am unrhyw argymhelliad/argymhellion sy'n cyfyngu mynediad plant i'r ffilm(iau).

Rhaid i geisiadau fod yn berthnasol i'r amcan trwyddedu sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed, ac ni ddylent fod yn wacsaw, yn flinderus nac ychwaith yn ailadroddus. Gall ceisiadau hefyd fod yn berthnasol i'r amcan trwyddedu sy'n ymwneud ag atal trosedd ac anhrefn, ond dim ond mewn perthynas â thorri dehongliad presennol Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol, pan fo'r Awdurdod Trwyddedu yn argymell y dylai ffilm(iau) fod yn destun categori sydd â chyfyngiad oedran, ni fydd unrhyw unigolyn dan yr oed a nodir yn cael mynediad. Pan fo'r Awdurdod Trwyddedu yn argymell y dylai ffilm(iau) fod mewn categori sy'n gofyn i unrhyw unigolyn dan oedran penodol gael eu hebrwng gan oedolyn, ni fydd unrhyw unigolyn dan yr oedran a nodir yn cael mynediad oni bai eu bod gydag oedolyn.

Yn yr amgylchiadau hyn, bydd gofyn i ddeilydd y drwydded arddangos rhybudd mewn lleoliad amlwg sy'n nodi'n glir y cyfyngiadau oedran perthnasol a'r gofyn, yn unol â'r enghreifftiau a ganlyn:

*Ni Chaniateir Mynediad i Unigolion dan [rhowch oedran priodol] i Unrhyw Ran o'r Rhaglen*

*Rhaid i Unigolion dan [rhowch oedran priodol] Fod Gydag Oedolyn Er Mwyn Cael Mynediad i'r Rhaglen*

**4. Y Drefn ar gyfer Awdurdodi Ffilmiau Nad Ydynt Eisoes Wedi'u Dosbarthu gan BBFC na Chyngor Gwynedd**

Yn y lle cyntaf, bydd ceisiadau am awdurdod yn cael eu hystyried gan swyddogion trwyddedu. Fodd bynnag, gall unrhyw gais i awdurdodi ffilm nad yw wedi'i dosbarthu gael ei chyfeirio gan Reolwr Trwyddedu.

Dylid cyflwyno ceisiadau o leiaf **28 diwrnod** cyn yr arddangosiad arfaethedig.

Dylai cais am awdurdod gynnwys y wybodaeth a ganlyn:
(a) cynhyrchydd y ffilm;
(b) argymhelliad a allai'r cynhyrchydd fod wedi'i gynnig am gyfyngiad oedran y gynulleidfa y bwriedir dangos y ffilm iddynt;
(c) unrhyw ddosbarthiad presennol a gyflwynwyd gan gorff dosbarthu presennol, un ai o fewn neu du allan i'r DU;
(d) crynodeb yn amlygu'r deunydd o fewn y ffilm a ystyrir gan yr arddangoswr yn debygol o effeithio cyfyngiad oedran y gynulleidfa fydd yn gwylio'r ffilm. Pan fo cais yn ceisio awdurdodiad sy'n caniatáu i'r ffilm gael ei dangos i unigolion dros 18 oed yn unig, ni fydd angen crynodeb fanwl;
(e) os yn wybyddus, safle cyfreithiol a chyfreithlon ble mae modd gwylio'r ffilm, neu ran o'r ffilm, am ddim;
(f) unrhyw gynigion y mae'r ymgeisydd yn bwriadu eu gosod am gyfyngiadau oedran o ran gwylio'r ffilm; a
(g) manylion am sut y bydd cyfyngiadau oedran yn cael eu gosod.

Bydd yr holl geisiadau'n cynnwys y ffilm(iau) mewn fformat DVD ble bo'n bosib er mwyn osgoi oedi, a'r ymgeisydd fydd yn talu am unrhyw gostau. Os nad yw fformat DVD yn bosib, bydd lleoliad addas yn cael ei drefnu i wylio'r ffilm. Bydd hyn yn rhoi amser i'r swyddogion Trwyddedu awdurdodedig wylio ac awdurdodi'r ffilm(iau) fel bod modd i ddeilydd y drwydded lynu at unrhyw argymhellion am gyfyngiadau oedran y gall yr Awdurdod Trwyddedu eu gorfodi. Mewn unrhyw achos, dylid cyflwyno bob cais o leiaf **28 diwrnod** cyn yr arddangosiad arfaethedig.

Wrth wylio'r ffilm(iau), bydd swyddogion trwyddedu yn ystyried Canllawiau'r BBFC a'r Canllawiau a182 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, ac yn cyflwyno Rhybudd Penderfyniad y cais o fewn 5 diwrnod gwaith o ddyddiad dechrau gwylio'r ffilm.

Wrth ystyried ceisiadau o'r fath bydd swyddogion Trwyddedu yn rhoi sylw penodol i'r Amcan Trwyddedu sy'n ymwneud ag Amddiffyn Plant rhag Niwed. Yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol, pan fo'r Awdurdod Trwyddedu yn argymell y dylai ffilm(iau) fod mewn categori sydd â chyfyngiad oedran, ni fydd unigolyn dan yr oedran a nodir yn cael mynediad. Pan fo'r Awdurdod Trwyddedu yn argymell y dylai ffilm(iau) fod mewn categori sy'n gofyn i unrhyw unigolyn dan oedran penodol gael eu hebrwng gan oedolyn, ni fydd unrhyw unigolyn dan yr oedran a nodir yn cael mynediad oni bai eu bod gydag oedolyn.

Yn yr amgylchiadau hyn, bydd gofyn i ddeilydd y drwydded arddangos rhybudd mewn lleoliad amlwg sy'n nodi'n glir y cyfyngiadau oedran perthnasol a'r gofyn. O ran geiriad Rhybuddion o'r fath, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n mabwysiadu'r enghreifftiau a ganlyn:

*Ni Chaniateir Mynediad i Unigolion dan [rhowch oedran priodol] i Unrhyw Ran o'r Rhaglen*

*Rhaid i Unigolion dan [rhowch oedran priodol] Fod Gydag Oedolyn Er Mwyn Cael Mynediad i'r Rhaglen*

Er mwyn sicrhau bod yr amcanion trwyddedu sy'n ymwneud ag Amddiffyn Plant rhag Niwed ac Atal Trosedd ac Anhrefn yn cael eu hyrwyddo, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi cyngor ffurfiol i'r ymgeisydd a deilydd y drwydded am unrhyw argymhelliad/argymhellion ynghylch cyfyngiad oedran i blant i'r ffilm(iau). Yn ogystal, gall hyn gynnwys unrhyw rybuddion sydd angen eu harddangos gan ddeilydd y drwydded y tu mewn a thu allan i'r eiddo. Bydd disgwyl i'r eiddo trwyddedig sy'n cynnal arddangosiad y ffilm gydymffurfio a'r argymhellion hyn.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr egwyddor y dylai oedolion gael yr hawl i ddewis eu hadloniant eu hunain, ac ni fydd fel arfer yn tanseilio'r egwyddor hon - ni fydd ceisiadau'n cael eu gwrthod oherwydd hyn. Fodd bynnag, ym mhob achos bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r ymgeisydd ddilyn Canllawiau'r BBFC o ran ffilmiau nad ydynt yn addas i blant dan 18 (R18).

**5. Adran 20 Deddf Trwyddedu 2003: Dangos Ffilmiau**

Mae pob eiddo sydd â chaniatâd i ddangos ffilmiau'n amodol ar yr amodau mandadol a ganlyn:

*1. Pan fo Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb yn caniatáu dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded neu'r dystysgrif gynnwys amod sy'n nodi fod rhaid cyfyngu mynediad plant i arddangosiad unrhyw ffilm yn unol â'r paragraffau hyn.*

*2. Pan fo corff dosbarthu ffilm wedi'i nodi ar y drwydded neu'r dystysgrif, oni bai bod paragraff 3 (b) isod yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad plant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wnaed gan y corff hwnnw.*

*3. Os:*

*(a) nad yw'r corff dosbarthu ffilmiau wedi'i nodi yn y Drwydded na'r Dystysgrif;*

*neu*

*(b)* *os yw'r Awdurdod Trwyddedu wedi rhoi gwybod i ddeilydd y Drwydded neu'r Clwb sydd â Thystysgrif fod y paragraff hwn yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, rhaid cyfyngu mynediad plant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wnaed gan yr Awdurdod Trwyddedu.*

*4. Yn y paragraffau hyn, mae "plant" yn golygu unigolion dan 18 ac mae "corff dosbarthu ffilmiau" yn golygu'r unigolyn neu'r unigolion a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 Deddf Recordiadau Fideo 1984.*

**6. Eithriadau yn ymwneud â Dangos Ffilmiau**

Mae'r ddarpariaeth o ddangos ffilm(iau) wedi’i heithrio o reoliadau Deddf Trwyddedu 2003 os:

Yw'n cynnwys neu'n llunio rhan o arddangosfa er dibenion amgueddfa neu oriel gelf (nid yw'r DdT03 yn diffinio amgueddfa nac oriel gelf ac felly defnyddir diffiniad arferol y termau)

**neu**:

Ei brif bwrpas yw:
(a) arddangos unrhyw gynnyrch,
(b) hysbysebu unrhyw gynnyrch neu wasanaethau (nid yw'n cynnwys hysbysebu ffilmiau), neu
(c) darparu gwybodaeth, addysg neu gyfarwyddiadau.

**7. Apeliadau**

Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Is-bwyllgor Trwyddedu am ddosbarth ffilm. Dylid cyflwyno unrhyw her drwy Adolygiad Barnwrol.